**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy 2025**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2(iii)(b). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod LCM, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y **Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy 2025** ("y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin, Senedd y DU ar 14 Mai 2025. Gosodais LCM ar 09 Mehefin 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU saith gwelliant ar 6 Hydref 2025 i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ’r Cyffredin, a ddigwyddodd ar 15 Hydref 2025. Roedd tri gwelliant yn rhoi sylw i faterion datganoledig, ac felly, gosodais SLCM (Memorandwm Rhif 2) ar 4 Tachwedd 2025.

4. Ar 11 Tachwedd 2025, atgyfeiriodd y Pwyllgor Busnes yr SLCM at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda 16 Ionawr 2026 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd amdano.

5. Cyflwynodd Llywodraeth y DU dri gwelliant arall ar 3 Rhagfyr 2025 i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025. Mae dau o'r gwelliannau yn ddarpariaethau perthnasol sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig gan eu bod yn rhoi neu'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel y manylir ym mharagraffau 10 i 17 isod.

6. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, i'w weld yn: Cyhoeddiadau Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy - Biliau Seneddol - Senedd y DU.

## Amcan(ion) y Polisi

7. Mae Amcanion Polisi'r Bil a ddarparwyd yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 9 Mehefin 2025, yn parhau'n gywir.

## Crynodeb o'r Bil

8. Mae crynodeb o'r Bil a ddarparwyd yn yr LCM cyntaf a osodwyd yn y Senedd ar 9 Mehefin 2025, yn parhau'n gywir.

## Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi’r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

9. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd yn ystod datblygiad y Bil ac mae'r cysylltu hwnnw wedi parhau ar lefelau Gweinidogion a swyddogion pan fo angen.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Yn fy marn i, mae angen LCM atodol mewn perthynas â dau welliant: y gwelliant a wnaed i gymal 10 a'r cymal newydd i'w fewnosod cyn cymal 15, fel y nodir isod:

**Cymal 10:**
"Payment of surpluses to levy payers:
[…]
(4) Before making regulations under this section the Secretary of State must consult—
(a) the Welsh Ministers, if the regulations contain provision which would be within the legislative competence of Senedd Cymru if contained in an Act of the Senedd;
(b) the Scottish Ministers, if the regulations contain provision which would be within the legislative competence of the Scottish Parliament if contained in an Act of the Scottish Parliament;
(c) the Department for the Economy in Northern Ireland, if the regulations contain provision which— (i) would be within the legislative competence of the Northern Ireland Assembly if contained in an Act of the Assembly, and (ii) would not, if it were contained in a Bill for an Act of the Northern Ireland Assembly, result in the Bill requiring the consent of the Secretary of State under section 8 of the Northern Ireland Act 1998;
(d) any other persons the Secretary of State considers appropriate."

11. Mae'r gwelliant cyntaf yn dileu is-adran (4) o gymal 10, tudalen 6, llinell 13.

12. Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad yn is-adran (4) o gymal 10 i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru "if the regulations contain provision which would be within the legislative competence of the Senedd".

13. Mae'r cymal newydd sydd i'w fewnosod cyn cymal 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn achos unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 10 (ymhlith eraill – gweler isod).

14. Fy marn i yw bod hon yn ddarpariaeth berthnasol gan ei bod yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u hymgysylltiad

mewn ymgynghoriad ynghylch rheoliadau o'r fath a'i bod y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a geisiwyd yn flaenorol gan y Senedd, a thrwy hynny fodloni'r prawf yn RhS 29.2(iii).

**Cymal newydd i'w fewnosod cyn cymal 15:**

"Duty to consult about regulations:

(1) Before making regulations under this Act the Secretary of State must consult any persons the Secretary of State considers appropriate.

(2) In the case of regulations under section 1, 3, 10 or 11, that must include —

(a) the Welsh Ministers,

(b) the Scottish Ministers, and

(c) the Department for the Economy in Northern Ireland."

15. Mae'r ail welliant yn mewnosod y cymal newydd uchod cyn cymal 15.

16. Mae is-adran (2) o'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 1, 3, neu 11 o'r Bil, ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig (gan gynnwys Gweinidogion Cymru).

17. Fy marn i yw bod hon yn ddarpariaeth berthnasol gan ei bod yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u hymgysylltiad mewn ymgynghoriad ynghylch rheoliadau o'r fath ac yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf, a thrwy hynny fodloni'r prawf yn RhS 29.2(iii).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

18. Safbwynt Llywodraeth y DU yw bod y tri gwelliant yn fân welliannau nad ydynt yn effeithio ar gyflawni ac felly nid oes angen SLCM. Fodd bynnag, credaf mai'r ddadl gryfach yw bod y diwygiadau i gymal 10 a'r cymal newydd a fewnosodir cyn cymal 15 o'r Bil yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion RhS 29, gan eu bod yn gwneud darpariaeth am y tro cyntaf, mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, gan eu bod yn rhoi neu'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Ystyrir felly fod angen SLCM mewn perthynas â'r dau welliant hynny.

19. Rwy'n cytuno â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwelliant i gymal 6 o'r Bil. Er bod y gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori o gymal 6, mae'r ddarpariaeth honno yn cael ei hailddatgan yn y cymal newydd sydd i'w fewnosod cyn cymal 15, ac nid yw'n addasu nac yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn benodol. Felly, nid wyf o'r farn bod angen SLCM ar gyfer y gwelliant hwnnw.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil**

20. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'r heriau byd-eang mwyaf. Er bod y diwydiant hedfan ond yn cyfrif am 2-3% o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-

eang heddiw, rhagwelir y bydd yn un o'r allyrwyr gweddilliol mwyaf yn 2050 wrth i sectorau eraill â mwy o botensial i leihau allyriadau wneud hynny. Ein huchelgais yw datgarboneiddio pob sector o'n heconomi.

21. Mae cyllidebau carbon Cymru yn cynnwys holl allyriadau hedfan Cymru, gan gynnwys teithiau hedfan domestig a thramor. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru drwy Sero Net Cymru ac mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau lleihau allyriadau priodol.

22. Mae polisi hedfanaeth yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Mae natur hedfan yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio, neu'n gallu dewis defnyddio, meysydd awyr yn Lloegr sydd â goblygiadau i effeithiolrwydd posibl polisïau yng Nghymru.

23. Cydnabyddir yn gyffredinol nad yw'r her fwyaf o ran gwneud hedfan sifil yn gynaliadwy yn gysylltiedig ag unrhyw ateb technegol penodol, ond gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd ar y cyflymder gofynnol. Mae'r cynnydd i sero net yn dibynnu ar bob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn gweithio tuag at nod cyffredin, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr awyrennau, cwmnïau hedfan, meysydd awyr a'u darparwyr gwasanaeth.

24. Rydym yn ystyried sut y gall Cymru gefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hedfan mwy cynaliadwy orau.

25. Gyda sector awyrofod hirsefydlog yng Nghymru, ei hanes diwydiannol cyfoethog a'i weithlu medrus iawn, sy'n edrych tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, rydym mewn sefyllfa dda i chwarae rôl sylweddol wrth ddatblygu deunyddiau crai ar gyfer Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (SAF) o ffynonellau nad ydynt yn amaethyddol ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn hyn o beth.

26. Gall datblygiadau mewn SAF fod yn ddadleuol. Nid yw'r byd yn cynhyrchu digon i gwrdd â'r galw presennol gan y diwydiant. Mae nifer o ffyrdd o'i gynhyrchu, gan gynnwys o gnydau a deunyddiau crai penodol, ond byddai angen defnyddio ardaloedd helaeth o dir fferm i ateb y galw byd-eang.

27. Fodd bynnag, rydym yn gefnogol o’r Bil, gan ei fod yn ystyried bod SAF yn ffordd o leihau allyriadau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant fynd ati i ddatblygu awyrennau allyriadau sero newydd, megis awyrennau sy’n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.

**Goblygiadau ariannol**

28. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru.

**Casgliad**

29. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran leihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU. Bwriad y mecanwaith sicrwydd refeniw SAF a gyflwynwyd fel rhan o'r Bil yw bod yn fesur cyfyngedig o ran amser i ysgogi marchnad gynnar ar gyfer SAF. Ni fydd ei angen mwyach unwaith y bydd gan fuddsoddwyr hyder ym mhris y farchnad a bod y dechnoleg gyntaf o'r fath wedi profi ei hun ar raddfa fasnachol. Rydym yn ystyried SAF fel ateb dros dro i leihau carbon, wrth i'r diwydiant edrych ar ddatblygu awyrennau allyriadau sero, fel awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.

30. Rwyf yn argymell, felly, y dylai Senedd Cymru gefnogi'r gwelliannau a rhoi ei chydsyniad.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**07 Ionawr 2026**